

Presennol:	Huw Jones	(Cadeirydd)
	Carol Bell	(Aelod o'r Awdurdod)
	John Davies	(Aelod o'r Awdurdod)
	Aled Eirug	(Aelod o'r Awdurdod)
	Hugh Hesketh Evans	(Aelod o'r Awdurdod)
	Guto Harri	(Aelod o'r Awdurdod)
	Marian Wyn Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
	Siân Lewis	(Aelod o'r Awdurdod)
	Elan Closs Stephens	(Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones	(Prif Weithredwr)
	Dafydd Rhys	(Cyfarwyddwr Cynnwys)
	Elin Morris	(Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol)
	Sharon Winogorski	(Prif Swyddog Cyllid)
	Phil Williams	(Ysgrifennydd yr Awdurdod)
	Bethan C. Williams	(Cynorthwydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod)

MATERION SEFYDLOG:**1. Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

2. Cofnodion cyfarfod 388 a materion yn codi (a gynhaliwyd ar 11.06.15)

Nodwyd cofnodion cyfarfod rhif 388 (a gylchredwyd ar e-bost) a chytunwyd y byddent yn cael eu cyflwyno'n ffurfiol a'u hystyried ymhellach yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi.

Nodwyd y byddai'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei osod gerbron y Senedd ar yr 20fed o Orffennaf ac yn cael ei gyhoeddi ar y 21ain.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd IHJ ei adroddiad ysgrifenedig a nododd fod nifer o'r prif faterion i'w trafod yn codi'n ddiweddarach yn ystod y cyfarfod.

4. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad ac esboniodd ei fod yn awyddus i ganolbwyntio ar ymateb S4C i Adolygiad Gwariant y Llywodraeth a'r adolygiad o berfformiad y Strategaeth Cynnwys.

Adolygiad Gwariant y Llywodraeth

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth ar Adolygiad Gwariant y Llywodraeth yn enwedig yn sgil datganiad yr Ysgrifennydd Gwladol yn Nhŷ'r Cyffredin parthed cytundeb rhwng y Llywodraeth a'r BBC ynghylch trwyddedau ar gyfer pobl dros 75 oed. Mae'r DCMS wedi gofyn i S4C gyflwyno rhagor o wybodaeth am sut byddai S4C yn dygymod gyda thoriadau yn yr incwm a ddaw ganddynt - yn hytrach nac ar holl incwm S4C.]

Penderfynwyd y byddai swyddogion yn parhau i drafod yr Adolygiad Gwariant gyda gweision y DCMS.

5. Adolygiad y Strategaeth Cynnwys

- 5.1 Nododd y Cadeirydd fod pedair elfen i'r drafodaeth am berfformiad y gwasanaeth ar agenda'r cyfarfod, sef adolygu perfformiad y Strategaeth Cynnwys a gyflwynwyd yng Ngorffennaf 2014, ystyried cofnodion y Pwyllgor Cynnwys, trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio ac ystyried blaenoriaethau a thargedau ar gyfer y gwasanaeth.

[**Crynodeb:** Cyflwynodd DRh ei adolygiad o berfformiad y Strategaeth Cynnwys a nododd fod nifer o elfennau'r strategaeth eisoes wedi eu gweithredu. Roedd y Pwyllgor Cynnwys a'r Awdurdod eisoes wedi asesu perfformiad a chyfraniad rhaglenni'r BBC i wasanaeth S4C fel rhan o drefniadau'r Bartneriaeth Strategol ac felly roedd y cyfarfod yn gyfle i ganolbwyntio ar gomisiynau S4C. Nodwyd bod y tîm comisiynu yn trafod amser darlledu a chynulleidfa rhaglen gyda'r cynhyrchwyr er mwyn sicrhau fod gan y cynhyrchwyr ddealltwriaeth am ddisgwyliadau'r cyfresi a'u cynulleidfaoedd targed. Nodwyd y byddai'r Pwyllgor Cynnwys yn adolygu perfformiad y Strategaeth Dysgwyr newydd yn yr hydref.]

5.2 Blaenoriaethau a thargedau ar gyfer y gwasanaeth

[**Crynodeb:** Nodwyd fod y Pwyllgor Cynnwys wedi bod yn ystyried sut i asesu llwyddiant y gwasanaeth, gan gynnwys ystyried priodoldeb y mesuriadau perfformiad presennol. Cytunwyd ar bwysigrwydd cyfuno mesurau gwyllo ar deledu gyda gwyllo ar-lein. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd y dylid gofyn i'r swyddogion gyflwyno argymhellion i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Hydref.]

6. Diweddariad – Strategaeth Hyfforddiant

[**Crynodeb:** Cyfeiriodd IHJ at y gwaith sy'n digwydd i ddiweddarau strategaeth hyfforddi S4C gyda'r bwriad o gyflwyno diweddariad i'r strategaeth yn yr hydref.]

7. Diweddariad – Y Broses Tendr

Nodwyd y byddai adolygiad o'r broses tendr a'r defnydd o gytundebau ar gyfer cyfresi sy'n dychwelyd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod ym mis Medi.

8. Diweddariad – Prosiect Cydleoli

[**Crynodeb:** Cafwyd diweddariad ar y prosiect Cydleoli. Trefnir cynnal cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu yn dilyn cyfarfodydd swyddogion S4C a'r BBC.]

9. **Diweddariad – Prosiect Archifo**

[**Crynodeb:** Eglurodd IHJ y gwaith cynllunio sydd ar y gweill ar gyfer y prosiect i archifo hen ddeunydd S4C ers 1982 i'w diogelu ar gyfer y dyfodol.]

10. **Diweddariad - S4C Rhyngwladol Ar-lein**

[**Crynodeb:** Cyfeiriwyd at y cynlluniau i gynyddu'r cynnwys sydd ar gael ar-lein yn rhyngwladol.]

11. **Adroddiad Ariannol Chwarter 1 2015-16**

Cyflwynwyd yr Adroddiad Ariannol Chwarter er gwybodaeth i'r Awdurdod gan Sharon Winogorski.

12. **Adroddiadau'r Pwyllgorau**

12.1 **Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Personél** a gynhaliwyd ar 11 Fehefin

Nododd MWJ fod crynodeb o drafodaethau'r Pwyllgor wedi ei gylchredeg i'r Aelodau gan y Cadeirydd er gwybodaeth.

12.2 **Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys** a gynhaliwyd ar 30 Mehefin

Cyflwynodd AE adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys gan nodi fod y pwyllgor wedi derbyn cyflwyniad am berfformiad y ddarpariaeth Chwaraeon gan Sue Butler ac wedi ystyried yr angen am dargedau newydd ar gyfer y gwasanaeth.

Derbyniwyd diweddariad hefyd parthed gweithredu argymhellion y Pwyllgor o ran asesu ac adrodd ar Amrywiaeth, a gobeithir cyflwyno diweddariad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

MATERION ERAILL

13. **Adroddiadau Gwifren Gwylwyr a Chwynion a Chydymffurfiaeth**

Cyflwynwyd adroddiadau Gwifren Gwylwyr a Chwynion a Chydymffurfiaeth er gwybodaeth i'r Awdurdod.

14. **Rhaglen Waith 2015-16**

Cyflwynwyd Rhaglen Waith yr Awdurdod tan fis Gorffennaf 2016 er gwybodaeth.

15. **Unrhyw Fater Arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.

Dyddiad y cyfarfod nesaf:

Dydd Iau 10 Medi 2015 yng Nghaerdydd